UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Ymgynghoriad ynghylch Rheolau Cofrestru Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Chwefror 2010

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymgynghoriad ynghylch Rheolau Cofrestru Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghylch Rheolau Cofrestru Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei brif swyddfa yng Nghymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

1. **A ydych yn cytuno ei bod yn fuddiol cyflwyno Rheolau Cofrestru am y rhesymau a nodir yn Adran 2 y ddogfen ymgynghori?**

   Nid yw UCAC yn teimlo'n gryf, naill ffordd neu'r llall, ynglŷn â'r angen am Reolau Cofrestru yn ogystal â'r Rheoliadau Statudol. O ran egwyddor, rhaid i'r fath reolau fod yn ddigon manwl i sicrhau cysondeb yn y ffordd y maent yn cael eu gweithredu, ond rhaid gochel rhag rhoi grymoedd yn y Rheolau Cofrestru sy'n mynd y tu hwnt i'r grymoedd a nodir yn y Rheoliadau Statudol.

   O ran sylwedd, gallwn gytuno, mewn egwyddor a chynnwys pwyntiau, (a), (b) ac (c) yn Adran 2 y ddogfen ymgynghorol, ond mae gennym bryderon difrifol a sylweddol ynglŷn â phwynt (d). Ymhelaethwn ar y pryderon hynny isod.

2. **Pa ddiwygiadau, os oes rhai, a ellid eu gwneud i'r Rheolau Cofrestru drafft?**

   <u>Cyhoeddi'r Rheolau</u>

   <u>3-(1)(c)</u> – Rydym yn awgrymu ychwanegu y bydd ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o'r broses adolygu.

   <u>Cynnwys y Gofrestr</u>

   <u>6-(3)</u> – Rydym yn gwrthwynebu'r cymal hwn yn chwyrn. Mae'r rheol hwn yn gwrthddweud yn uniongyrchol yr hyn a ddywedir yn y Rheoliadau Statudol, sef:

> Y materion sydd i'w cofnodi yn y gofrestr wrth ochr enw athro neu athrawes
>
> ...
>
> 22. Telerau unrhyw gyfyngiad ***sydd mewn grym am y tro*** mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i gyfarwyddyd o roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol...
>
> 22A. Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, ***sydd mewn grym am y tro***, a wnaed gan y Cyngor neu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr
>
> 22B. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, ***am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y cerydd***.
>
> 22C. Telerau unrhyw gyfyngiad ***sydd mewn grym am y tro*** mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon."
>
> **22D**. Telerau unrhyw gyfyngiad ***sydd mewn grym am y tro*** mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd gan An Chomhairle Mhúinteoireachta neu'r Cyngor Addysgu.
>
> *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 (diwygio: 2001, 2009)*

   Mae'r Rheoliadau Statudol yn gwbl glir ynglŷn â'r cyfnodau y dylid cadw gwybodaeth am orchmynion disgyblu ar y gofrestr. Mae grym y gyfraith y tu ôl i'r Rheoliadau Statudol, a ni chredwn y dylai'r Rheolau Cofrestru geisio newid mewn unrhyw fater o sylwedd, gynnwys y Rheoliadau hynny.

Ymhellach, ni chredwn fod unrhyw fudd i athrawon nac i gyflogwyr i gadw'r wybodaeth hon ar y gofrestr y tu hwnt i'r cyfnodau a nodir yn y Rheoliadau. Rhaid i athrawon, ar ôl dod i ben ag unrhyw orchymyn disgyblu, cael ail-ddechrau gyda llechen lan - mae hynny'n egwyddor gydnabyddedig yn y gyfraith; mae collfarn sydd wedi darfod (*spent conviction*), wedi darfod.

Petai'r wybodaeth hon yn aros ar y gofrestr, byddai angen darparu'r wybodaeth i eraill (yn unol â Rheol 11); mae UCAC yn gryf o'r farn nad yw'r wybodaeth hon yn berthnasol y tu hwnt i'r terfynau a nodir yn y Rheoliadau Statudol. Yn wir, gall fod yn gamarweiniol i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth, ac yn niweidiol nid yn unig i athrawon unigol, ond i'r proffesiwn.

Diwygio cofnodion y Gofrestr

7-(2)(a)- yn y fersiwn Cymraeg, awgrymwn ddefnyddio'r gair 'hysbysiad' yn hytrach na 'rhybudd' – mae hynny'n cyd-fynd â Rheol 7 sy'n gofyn i athrawon cofrestredig 'hysbysu'; yn y fersiwn Saesneg defnyddir '*notify*' a '*notice*'; mae'n glir mai '*inform*' yw'r ystyr a fwriedir, ac nid '*give notice*', fel sy'n cael ei awgrymu gan y defnydd o'r gair 'rhybudd'.

7-(2)(c) – mae UCAC o'r farn y dylid hysbysu athro am unrhyw ddiwygiad i'r wybodaeth sy'n cael ei gofnodi amdano/i yn y Gofrestr; mae hynny'n rhoi cyfle i'r athro ymateb os yw'r credu bod camgymeriad yn yr wybodaeth honno.

Ffioedd Cofrestru

9-(7)(b) – hoffai UCAC weld dileu'r gair 'gallu', h.y. 'yn atgoffa' (yn y Saesneg, newid '*may remind*' i '*shall remind*'). Gan fod methiant i dalu'r ffi yn golygu tynnu enw athro oddi ar y Gofrestr, a gan fod hwnnw'n gam difrifol i unrhyw athro, credwn ei bod hi'n deg i atgoffa athrawon cofrestredig ddwywaith bod y ffi yn ddyledus cyn tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr.

Byddai hyn yn golygu mân ddiwygiad i Reol **10-(1)(a)** o 'hysbysiad' i 'hysbysiadau'.

Ymhellach, awgrymwn y dylid ymdrechu i gysylltu â'r athro â'i ffi'n ddyledus, drwy ei gyflogwyr (e.e. ysgol, Awdurdod Lleol) yn ogystal â'r 'cyfeiriad cartref a/neu'r cyfeiriad e-bost a gedwir ar y Gofrestr yn erbyn enw athro at y diben hwn' os na ddaw ymateb o'r cyfeiriad hwnnw. Fel y nodwyd uchod, mater difrifol yw bod enw'n cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr, a rhaid cydnabod bod cyfeiriadau ebost yn newid yn aml, a bod athrawon – yn enwedig athrawon ifanc – yn gallu symud tŷ'n aml iawn, ac nid mater rhwydd yw cofio rhoi gwybod i bob un. Mae'r Rheoliadau Statudol yn dweud y dylid cadw cofnod ar y Gofrestr o fanylion y cyflogwyr 'os yw'n hysbys'.

Dileu cofnodion o'r Gofrestr

10-(1)(d) – 'Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr' / '*Secretary of State for England and Wales*' – a oes Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr? Ai Ysgrifennydd Gwladol Cymru a olygir fan hyn? Neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Ysgrifennydd Cartref y Deyrnas Gyfunol?

10-(1)(f) – fel 9-(7)(b) uchod, dylid ymdrechu i gysylltu drwy'r cyflogwr cyn dileu cofnod athro.

10-(1)(h) - a oes angen nodi dyddiad cychwyn ar gyfer y cymalau hyn? Os deallaf yn iawn, ym mis Tachwedd 2010 y daw'r gofyniad hwn yn orfodol o dan drefn yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Fetio a Gwahardd.

10-(2)(a) - yn y cyd-destun hwn, nid yw ystyr y gair 'cyfeiriad' yn ddigon clir - nid yw'n cyfleu ystyr '*referral*' yn ddigon clir; mae'n sicr yn un anodd ei gyfieithu, ond tybed a fyddai 'atgyfeiriad' yn well? Yn sicr, mae'n llai amwys.

10-(3)(b) – awgryma UCAC ddileu'r gair 'gallu', h.y. 'yn hysbysu' (yn y Saesneg, newid '*may notify*' i '*shall notify*'

Mynediad i'r Gofrestr

11-(3) – mae UCAC yn gryf o'r farn y byddai'n ddoeth o ran sensitifrwydd a chyfrinachedd yr wybodaeth a ddatgelir i bobl a sefydliadau a enwir yma, i ychwanegu cymal yma sy'n adlewyrchu cynnwys y Rheoliadau Statudol:

> 16-(4). Rhaid i berson y mae paragraff (1) yn gymwys iddo beidio â datgelu gwybodaeth a roddir o dan y rheoliad hwn i neb heblaw'r athro neu'r athrawes y mae'r wybodaeth yn cyfeirio atynt.
>
> *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000*

11-(5) – fel 10-(1)(d) uchod – Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr?

Rhestr o athrawon a gofrestrwyd yn flaenorol

12-(1) – unwaith, eto, awgrymwn ychwanegu cymal yma sy'n adlewyrchu cynnwys y Rheoliadau Statudol:

> Personau y mae'r ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion mewn perthynas â hwy
>
> 1. Personau y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr ***heblaw rhai y cafodd eu henwau eu tynnu ar eu cais hwy eu hunain neu sydd wedi marw***.
>
> *Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000*

3. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Pwysleisiwn unwaith eto'r angen i beidio â mynd ymhellach o ran grymoedd yn y Rheolau hyn nag sy'n cael ei ganiatáu o dan y Rheoliadau Statudol perthnasol.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com